| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 25 / 09 / 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Polisi Chwythu'r Chwiban |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithrediad Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ers yr adroddiad blynyddol diwethaf ar 20 Medi 2023

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor sy'n cynnwys gofyniad bod y Swyddog Monitro yn dod ag adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor hwn ar weithrediad y Polisi ac unrhyw newidiadau mewn arfer a gyflwynir o ganlyniad i bryderon a godwyd o dan y Polisi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Ebrill 2016 cymeradwyodd y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i ddiweddaru a'i ddiwygio. Fel gyda'r polisi blaenorol mae'n ofynnol i'r Swyddog Monitro adrodd unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar

weithrediad y Polisi. Adolygwyd y Polisi diwethaf ym mis Hydref 2023. Mae copi o'r Polisi ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4.2. Gwnaethpwyd yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2023. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2021 a 30 Ebrill 2023. Yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw, codwyd chwe phryder newydd.

4.3. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mai 2023 a 30 Ebrill 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, codwyd pum pryder newydd, ac mae dau ohonynt yn gysylltiedig.

4.4. Mae'r Atodiad 2 sydd ynghlwm yn cynnwys crynodeb dienw o'r pryderon a godwyd yn ystod y cyfnod hwn. Gellir rhoi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor yn y cyfarfod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae trefniadau chwythu'r chwiban cadarn yn cefnogi llywodraethu da ledled y Cyngor sydd yn ei dro yn galluogi cyflawni blaenoriaethau'n effeithiol

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad mewn perthynas â'r adroddiad hwn

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â’r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, mae trefniadau chwythu'r chwiban cadarn yn helpu i gefnogi llywodraethu da ledled y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Yn absenoldeb Polisi a Gweithdrefn Chwythu’r Chwiban cadarn ac effeithiol y mae gweithwyr a thrydydd parti sy’n ymgysylltu â’r Cyngor yn gyfarwydd â nhw, mae risg na fydd pryderon ynghylch camymddwyn yn dod i sylw’r Cyngor. Mae’n hanfodol bod gweithwyr yn deall y byddant yn cael eu hamddiffyn os ydynt yn codi pryder gan gredu’n rhesymol bod eu hadroddiad yn cael ei wneud er budd y cyhoedd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad